**Kirsty Williams AS/MS**
**Y Gweinidog Addysg**
**Minister for Education**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-1140
Ein cyf/Our ref KW/00938/21

Janet Finch-Saunders AS
Cadeirydd
Pwyllgor Deisebau Senedd Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

11 Chwefror 2021

Annwyl Janet,

**Deiseb P-05-1140 Dylid adolygu'r canllawiau ar gyfer Prydau Ysgol Am Ddim, gan ddileu'r opsiwn ar gyfer dosbarthu parseli bwyd**

Diolch am eich llythyr ynghylch Deiseb P-05-1140. Rwyf wedi nodi nifer o bwyntiau i'r Pwyllgor Deisebau eu hystyried isod.

Mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi'r hyblygrwydd i awdurdodau lleol ddewis pa ddull o ddarparu prydau ysgol am ddim sydd orau i ddiwallu anghenion y boblogaeth y maent yn ei gwasanaethu yn ystod y cyfnod pan nad yw disgyblion cymwys wedi gallu mynychu'r ysgol o ganlyniad i Covid-19.

Rydym wedi annog awdurdodau lleol i weithredu nifer o systemau ochr yn ochr oherwydd ein bod yn ymwybodol iawn nad oes un dull unigol yn gallu diwallu anghenion teuluoedd pob disgybl cymwys o fewn ardal awdurdod lleol, yn enwedig teuluoedd mwy agored i niwed. Yn anecdotaidd, rydym wedi cael gwybod am deuluoedd nad oes ganddynt gyfrifon banc (ac felly nad ydynt yn gallu derbyn taliadau BACs) a hefyd am bryderon awdurdodau lleol mewn nifer fach o achosion yn ymwneud â phlant agored i niwed lle mae perygl gwirioneddol na fyddent yn elwa pe bai taliad arian parod yn cael ei wneud i'w rhieni. Dywedwyd wrthym hefyd fod dosbarthu parsel o fwyd wedi rhoi cyfle amhrisiadwy i awdurdodau lleol wirio lles plentyn sy'n agored i niwed. Yn yr un modd, mewn rhai ardaloedd lle mae gan archfarchnadoedd mawr bresenoldeb cyfyngedig ac nad oes slotiau trafnidiaeth neu gyflenwi ar gael am ba reswm bynnag, nid yw talebau'n fawr o ddefnydd. Mae gallu gweithredu nifer o systemau cyfochrog yn galluogi awdurdod lleol i ddiwallu anghenion niferus ac amrywiol eu poblogaeth gymwys.

Deallaf fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yng Nghymru ar hyn o bryd yn darparu prydau ysgol am ddim gan ddefnyddio naill ai taliadau arian parod neu dalebau. Mae awdurdodau lleol wedi ystyried y dull o ddarparu prydau ysgol am ddim y maent wedi'i fabwysiadu o ddifrif a gwn am o leiaf un lle mae'r mater hwn wedi'i ystyried a'r penderfyniad wedi'i wneud ar lefel y Cyngor.

Nid yw fy swyddogion yn ymwybodol o unrhyw bryderon sy'n cael eu codi gan y teuluoedd hynny y darperir talebau iddynt ac ni allaf weld unrhyw rinwedd o beidio â chaniatáu i awdurdodau lleol eu dosbarthu fel mater o drefn. Rwy'n ymwybodol bod dau awdurdod lleol (Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr) yn darparu parseli bwyd yn rheolaidd gydag Abertawe yn rhoi dewis o daliad neu barsel bwyd i deuluoedd cymwys.

Efallai y bydd gennych ddiddordeb hefyd mewn gweld y fwydlen a gynigir yng Nghaerffili (https://www.caerphilly.gov.uk/Services/Schools-and-learning/School-dinners-and-breakfast-clubs/COVID-19-Free-school-meals-delivery-service). Deallaf fod Caerffili a Phen-y-bont ar Ogwr yn gallu darparu ar gyfer y rhai sydd â gofynion dietegol arbennig.


Mae'n bwysig cydnabod bod y deisebydd yn cyfeirio at ddelweddau o barseli bwyd o Loegr a achosodd helynt yn ddiweddar yn y cyfryngau. Arweiniodd yr helynt hwnnw at sylwadau cadarnhaol iawn gan deuluoedd sy'n byw mewn dwy ardal awdurdod lleol yng Nghymru sydd ar hyn o bryd yn darparu prydau ysgol am ddim ar ffurf talebau bwyd fel mater o drefn. Amgaeaf ddolenni at ddwy erthygl yn y cyfryngau sy'n pwysleisio hyn (https://www.walesonline.co.uk/news/education/free-school-meals-food-wales-19607778
https://www.mirror.co.uk/news/uk-news/stark-contrast-between-free-school-23306723).

Lle mae fy swyddogion wedi cael gwybod am bryderon unigol ynghylch cynnwys parseli bwyd, mae'r rhain wedi'u datrys drwy gyfeirio at yr awdurdod lleol dan sylw.

Mae staff awdurdodau lleol ledled Cymru wedi gweithio'n eithriadol o galed i sicrhau nad yw disgyblion cymwys sy'n dibynnu ar brydau ysgol am ddim wedi gorfod mynd hebddynt am nad ydynt yn gallu mynychu'r ysgol oherwydd Covid-19. Credaf hefyd ei bod yn bwysig cydnabod bod ymdrech ychwanegol wedi'i gwneud yng Nghaerffili i ddefnyddio cyflenwyr lleol sydd wedi cael eu taro'n arbennig o galed gan y pandemig. Ar y llaw arall, nid wyf yn ymwybodol o fawr o dystiolaeth sy'n awgrymu y byddai rhieni'n fwy tebygol o wario gyda manwerthwyr lleol, annibynnol, yn hytrach nag archfarchnadoedd (fel y nodwyd gan y deisebydd).

Rwy'n gobeithio bod y wybodaeth rwyf wedi'i darparu yn ddefnyddiol i'r Pwyllgor Deisebau ac, os oes angen rhagor o fanylion, rhowch wybod i mi.

Yn gywir



**Kirsty Williams AS/MS**
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education